

SGÔR HYLENDID BWYD

FOOD HYGIENE RATING

Rheoliadau Sgorio Hylendid Bwyd  
(Cymru) 2013

## 'Hawl i Ymateb'

### Nodiadau i fusnesau

- Fel gweithredwr busnes bwyd y sefydliad, mae gennych 'hawl i ymateb' o dan Adran 11 o Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013, mewn perthynas â'r sgôr hylendid a roddwyd i chi ar ôl i'ch sefydliad gael ei arolygu. Gallwch arfer yr hawl hwn ar unrhyw adeg tra bo'r sgôr yn ddilys.
- Diben yr 'hawl i ymateb' yw rhoi cyfle i chi egluro'r camau yr ydych chi wedi'u cymryd yn sgil yr arolygiad i gyflwyno'r gwelliannau gofynnol a nodir yn y llythyr arolygu, neu egluro unrhyw amgylchiadau lliniarol a oedd ar waith adeg yr arolygiad. Ni fwriedir i'r ffurflen fod yn gyfrwng i chi feirniadu na chwyno am y cynllun sgorio neu'r swyddog diogelwch bwyd a gynhaliodd yr arolygiad.
- Os hoffech fanteisio ar yr 'hawl i ymateb', defnyddiwch y ffurflen isod a'i dychwelyd at y swyddog diogelwch bwyd a gynhaliodd eich arolygiad – mae'r manylion cyswllt ar gael yn y llythyr a anfonwyd atoch i roi gwybod i chi am eich sgôr hylendid bwyd.
- Mae'n rhaid i chi gyflwyno eich sylwadau yn ysgrifenedig ond nid oes yn rhaid i chi ddefnyddio'r ffurflen hon. Gallwch gyflwyno eich sylwadau mewn fformat ysgrifenedig arall.
- Nid yw sylwadau sarhaus, difenwol, anghywir neu amherthnasol yn dderbyniol. Os ydych chi'n cyflwyno sylwadau o'r fath byddwn yn eich gwahodd i adolygu eich testun.
- Bydd eich sylwadau yn cael eu hanfon at yr Asiantaeth Safonau Bwyd a'u cyhoeddi ar-lein ochr yn ochr â'ch sgôr hylendid bwyd drwy [food.gov.uk/ratings](http://food.gov.uk/ratings) – cliciwch ar 'Cymraeg'.

Enw'r sawl sy'n gweithredu'r  
busnes bwyd

Enw'r busnes

Cyfeiriadau'r busnes

Dyddiad arolygu

Sgôr hylendid bwyd a  
roddwyd

- Rwy'n cytuno â chanfyddiadau'r arolygiad ond, ers hynny, rwyf wedi rhoi'r newidiadau canlynol ar waith (ticiwch bob un sy'n berthnasol):
- Mae'r sefydliad wedi cael ei lanhau'n drylwyr ac mae gweithdrefnau ar waith i gynnal y safonau glendid.

- Mae'r sefydliad wedi'i adnewyddu'n llwyr neu ar fin cael ei adnewyddu'n llwyr.
- Mae system reoli newydd ar waith.
- Mae rheolwr a/neu staff newydd yn y sefydliad.
- Mae'r staff wedi cael eu hyfforddi/ail-hyfforddi/wedi cael cyfarwyddiadau/yn gweithio o dan drefniadau goruchwylio diwygiedig.
- Arall – nodwch y manylion isod gan ddefnyddio'r gofod hwn yn unig

- Nid oedd yr amgylchiadau adeg yr arolygiad yn nodweddiadol o amgylchiadau arferol y sefydliad a bu iddynt godi oherwydd (Eglurwch y rhesymau isod, gan ddefnyddio'r gofod isod yn unig. Gallwch hefyd nodi unrhyw welliannau eraill a wnaed):

Llofnod	<input type="text"/>		
Enw mewn priflythrennau	<input type="text"/>		
Swydd	<input type="text"/>	Dyddiad	<input type="text"/>

**Dychwelwch y ffurflen hon yn awr at eich awdurdod lleol Adran**

**Diogelwch Bwyd, Coed Pella, Conway Road, Bae Colwyn. LL29 7AZ**